

## MERCHED Y WAWR - Cangen Llannau'r Tywi – Medi, Hydref a Tachwedd 2019

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd i gyfarfod cynta'r tymor, yn Neuadd Llangain ar y 18fed o Fedi. Croesawyd pawb gan Ann Thomas ein Llywydd a'n harweiniodd ar hyd hanes y 'fascinator' neu'r 'Penwisg Pitw' - term effeithiol iawn a fathwyd gan Jill Davies, un o'n haelodau. Cyfeiriodd Ann at yr arfer o wisgo addurniadau yn y gwallt gan y bonedd, ers y bymthegfed ganrif. Cafodd yr enw 'fascinator' ei ddefnyddio gyntaf, mae'n debyg, yn ystod yr 18fed ganrif ar ôl i Marie Antoinette, ddefnyddio plu a nifer o dlysau eraill yn ei gwallt. Ers hynny mae'r arfer o addurno hetiau wedi parhau ac esblygu, ac erbyn hyn gwelir 'Penwisgoedd Pitw' o bob lliw a llun mewn priodasau ac achlysuron arbennig megis rasys ceffylau. 'Roedd nifer o'r aelodau wedi dod â rhai i'w harddangos a chafwyd hanesion difyr iawn am achlysuron eu gwisgo. Yn ystod gweddill y noson trafodwyd trefniadau'r bore coffi Macmillan roeddem yn ei drefnu yr wythnos ganlynol.

Y gangen drefnodd y bore coffi blynyddol i elusen Macmillan yn Neuadd Llansteffan ar ddydd Sadwrn 28 o Fedi eleni. Cafwyd cefnogaeth gref gan y gymuned leol a thu hwnt i fwynhau'r wledd o ddanteithion melys roedd yr aelodau wedi eu paratoi. 'Roedd yn fore llwyddiannus iawn a codwyd £1203 ar gyfer Gofal Cancr. Llongyfarchiadau a diolch i bawb.

Ym mis Hydref, cafwyd cyfle i ymweld â menter newydd Lisa Fearn yn y 'Sied' yn Felin-wen. Yn yr hen feudy, sydd wedi ei drawsnewid yn adeilad modern a ffasiynol, cawsom arddangosfa o wahanol fwydydd gan Lisa, gyda chymorth ei merch, Amy. Ar ôl hynny, roedd cyfle i fwynhau'r pryd blasus tri chwrs a baratowyd ar ein cyfer. Yn ystod y noson cafwyd sawl awgrym defnyddiol a syml gan Lisa, fydd yn gymorth i ni wrth baratoi a choginio ein bwyd gartref. Diolchwyd i'r ddwy am noson hwylus a chartrefol iawn gan Diane Davies.

Lilwen Thomas o San Clêr a Llywydd un o Is-Bwyllgorau Cenedlaethol y mudiad oedd ein gwestai yn y Farmers, Llanybri, ym mis Tachwedd. Mae Lilwen yn arbenigwraig ar osod blodau, a dros y blynyddoedd mae wedi ennill nifer o wobrau yn y Sioe Frenhinol gyda'u threfniadau. Ar y noson, llwyddodd i baratoi pump trefniad gwahanol ar ein cyfer, yn cynnwys tri steil clasurol i osod ar stondyn neu fwrdd, yn ogystal â basged o rhosynnau melyn a torch lliw pinc a phorffor. 'Roedd yn bleser gwyllo'r dwylo medrus yn gosod rhosynnau, blodau gerbera coch a gwyn, dail a gwyrddni eraill yn berffaith yn eu lle yn ddi-ffws ac mewn amser byr. Ar ddiwedd y noson, roedd cyfle i gymdeithasu dros banded a chacen wedi eu paratoi gan wraig y dafarn. 'Roedd yn noson hyfryd a hwylus iawn, gyda pump aelod lwcus wrth eu bodd ar ôl ennill trefniad blodau yn y raffl.